# Papur y Bwrdd

7 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B B 45.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Michael Evans** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Craffu -** Diben SoNaRR yw asesu i ba raddau y cyflawnir rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd ystyried cynnydd a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer cynhyrchu SoNaRR a chymeradwyo'r ffordd ymlaen arfaethedig. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu CNC i wireddu egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt:<br><br>**Ystyried <u>yr hirdymor</u>:**<br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br><br>Bydd SoNaRR yn cyflwyno methodoleg ar gyfer dull risg-seiliedig, gan ddefnyddio tystiolaeth ar adnoddau naturiol i helpu Llywodraeth Cymru (LlC) ac eraill i asesu arwyddocâd y risgiau hirdymor i lesiant, a thrwy hynny ystyried sut i gymryd camau ataliol i reoli'r risgiau hynny.<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:**<br><br>Cyflwynir yr wybodaeth ochr yn ochr â'r nodau Llesiant – mae hyn yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a ddylai felly helpu i glustnodi pam y mae'r risgiau hynny yn berthnasol iddynt hwy. |

| | |
|---|---|
| | **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:**<br><br>Bwriedir y bydd hyn yn ddechrau sgwrs ar sut y gallwn wella ein ffordd o gyflwyno tystiolaeth i helpu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddwn yn defnyddio prosesau Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a Datganiadau Ardal i fwrw ymlaen i barhau'r drafodaeth ag amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys clustnodi'r rôl bosibl gwyddoniaeth dinasyddion. |

**Mater**

1. Rhoi gwybod i'r Bwrdd am gynlluniau a chynnydd o ran llunio Adroddiad cyntaf Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

**Cefndir**

2. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth cafodd y Bwrdd bapur yn amlinellu'r cynlluniau i lunio'r Adroddiad cyntaf ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) erbyn mis Medi 2016. Yr argymhelliad a wnaed i'r Bwrdd oedd y dylid cytuno i gymeradwyo cynnwys yr adroddiad yn ystod mis Gorffennaf. Ers hynny rydym wedi bod yn mireinio penodau 1 a 2 ymhellach ac wedi bod yn crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer penodau 3, 4 a 5 ochr yn ochr â'i gilydd. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddogfen yn bodloni'r gofynion a gaiff eu nodi yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

3. Yn ogystal, buom yn trafod sut i wneud cynnydd o ran yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gydag Is-grŵp Gwybodaeth y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill. Cafodd aelodau'r Bwrdd gopi drafft gweithredol cyntaf o'r testun ar 27 Mai, pan gafodd ei anfon hefyd at arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.

4. Ar 20 Mehefin bu i ni gynnal gweminar gydag aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol, i gyflwyno trosolwg o ddiben a strwythur yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol er mwyn cael adborth ynghylch y copïau drafft.

5. Rydym wedi cynnal gweminarau mewnol ac allanol llwyddiannus ar gyfer ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn deall diben a strwythur yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Cafwyd ymateb da i'r gweminarau hyn.

6. Roedd adborth Llywodraeth Cymru i gopi drafft 27 Mai yn cynnwys y canlynol

   - Yr angen i fod yn ddiamwys ynghylch bylchau mewn data a gwybodaeth
   - Yr angen i fod yn glir ynghylch y modd yr ydym wedi penderfynu ar y “prif negeseuon”
   - Yr angen i sicrhau bod yr holl negeseuon a chanfyddiadau’n seiliedig ar dystiolaeth
   - Yr angen i sicrhau bod termau’n gyson – gan ddefnyddio rhestr eirfa
   - Yr angen i osgoi symud tuag at drafodaethau polisi
   - Yr angen i sicrhau bod y cywair a’r arddull yn gyson ac yn hawdd eu deall
   - Yr angen i gryfhau’r cysylltiadau ag iechyd a lles

7. Y camau nesaf arfaethedig
   - Cwblhau drafft terfynol o’r holl benodau erbyn **15 Gorffennaf 2016**
   - Golygu’r ddogfen gyflawn **15 - 22 Gorffennaf 2016**
   - Paratoi drafft terfynol o’r cynnwys i aelodau’r Bwrdd ei gymeradwyo **30 Gorffennaf 2016**
   - Cynnal adolygiad allanol o’r ddogfen gyfan **30 Gorffennaf - 15 Awst 2016**
   - Cyflwyno fersiwn derfynol o’r ddogfen i’r Bwrdd, ar gyfer ymwybyddiaeth, cyn ei chyhoeddi **30 Awst 2016**
   - Cyhoeddi’r ddogfen **ddiwedd Medi**

## Asesiad

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro’r hyn sy’n ofynnol o safbwynt polisi ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, sydd wedi llywio ein dull o asesu i ba raddau y caiff adnoddau naturiol eu rheoli’n gynaliadwy. Mae strwythur y ddogfen a’r penodau olaf (penodau 5 a 6) wedi’u cytuno a’u cymeradwyo’n derfynol yn y Grŵp Tystiolaeth Craidd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol ar y cyd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi defnyddio’r grŵp hwn i rannu copïau drafft cynnar o bob pennod, er mwyn ymgysylltu â chydweithwyr ym maes polisi yn Llywodraeth Cymru ynghylch ein dull sy’n datblygu a lleihau’r risgiau iddynt hwy o safbwynt datblygu’r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

9. Mae hon yn broses sy’n esblygu. Mae cyhoeddi’r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol am y tro cyntaf yn ddechrau sgwrs â rhanddeiliaid ynghylch y dull o asesu i ba raddau yr ydym yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er mwyn gwneud hynny, rydym wedi defnyddio technegau asesu sy’n bodoli eisoes a ddatblygwyd gan yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol, ac yn benodol y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol, ond rydym wedi’u haddasu i gyd-fynd â chyd-destun

deddfwriaethol Cymru. Dros amser, bydd angen i ni fireinio ein dealltwriaeth o’r cydberthnasau rhwng cydnerthedd ecosystemau a’r manteision y maent yn eu cyflwyno, a gallu blaenoriaethu risgiau’n unol â hynny. Mae’r diffyg eglurder ynghylch y mathau o dystiolaeth y gallai fod eu hangen arnom i ymgymryd â’r gwaith hwn, wedi golygu nad ydym wedi gallu gweithio mewn modd mor gydweithredol ag y byddem wedi ei ddymuno. Mae hynny wedi’i ddwysáu gan yr amserlenni tynn a’r ffaith bod yr asesiad yn newydd sbon.

10. Felly, mae angen i ni ddefnyddio’r pedair blynedd nesaf i drafod a mireinio’r dull asesu hwn gyda rhanddeiliaid. Bydd hynny’n ein helpu i adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ac ymgysylltu yn y dyfodol o ran casglu tystiolaeth a rhannu gwybodaeth. Rydym yn ystyried datblygu Datganiadau Ardal yn gyfle pellach i adeiladu ar y fethodoleg hon, fel ein bod yn deall yn well y dystiolaeth a’r data y mae eu hangen i fod yn sail i weithredu ar lawr gwlad, a dylanwadu ar yr ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

11. Mae’r broses o lunio’r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ychydig ar ei hôl hi ar hyn o bryd. Mae hynny’n bennaf oherwydd bod asesu a chyflwyno ein data a’n tystiolaeth mewn ffordd newydd wedi bod yn anodd, a bod trafferthion wedi codi o ran cytuno ar fformat terfynol. Mae gennym gynlluniau ar waith i sicrhau ein bod yn ôl ar y trywydd cywir ar gyfer y terfyn amser ym mis Medi.

12. Rydym o’r farn bod cyhoeddi’r Adroddiad cyntaf ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn gyfle i ni bennu’r dull yr ydym yn ei ffafrio ar gyfer ymgysylltu â’n rhanddeiliaid i ddatblygu ymhellach y dull gweithredu a’r dystiolaeth y mae eu hangen. Hoffem gyflwyno opsiynau ar gyfer gwaith ymgysylltu yn y dyfodol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd.

13. Roeddem bob amser wedi rhagweld amserlen dynn ar gyfer llunio’r adroddiad, felly rydym wedi bod yn cymryd sylwadau gan y Bwrdd wrth i ni symud ymlaen (gan rannu copïau drafft a chynnal gweminar). Ychydig iawn o gyfle fydd gennym i wneud newidiadau sylweddol i’r ddogfen ar ddiwedd Gorffennaf; ac o’r herwydd rydym yn gofyn i’r Bwrdd gymeradwyo’r cynnwys sydd wedi’i lunio hyd yn hyn a’r cynigion yn y cyfarfod hwn.

## **Argymhelliad/Argymhellion**

14. Cynigir y dylai’r adroddiad drafft terfynol gael ei ddosbarthu i aelodau’r Bwrdd ddiwedd mis Gorffennaf i gael sylwadau terfynol yn ei gylch. Byddwn hefyd yn sicrhau bod fersiwn derfynol o’r adroddiad yn cael ei rhannu â’r Bwrdd cyn ei chyhoeddi.

## **Prif risgiau**

15. Mae’r amserlenni’n dynn. Gan fod gwaith arall â blaenoriaeth yn effeithio ar yr hyn a gyflawnir ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, rydym 6 wythnos ar ei hôl hi o safbwynt yr amserlen yr oeddem wedi’i phennu ar ein cyfer ein hunain. Rydym yn mynd i’r afael â hynny drwy asesu’r llwybrau hanfodol a diwygio’r amserlen fel y bo’n briodol. Mae ychydig o risg o hyd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi’n hwyr o gofio’r problemau a allai godi yn sgil yr adolygiad annibynnol, y gwaith cyfieithu a’r broses gynhyrchu derfynol. Rydym yn lliniaru’r risg honno drwy rannu copïau drafft gweithredol o bob pennod â Llywodraeth Cymru, a thrwy sicrhau bod y Llywodraeth yn cael copi drafft terfynol ym mis Awst, fel na ddylai fod oedi o ran y gwaith datblygu polisi.

16. Ceir risg na fydd rhanddeiliaid yn deall swyddogaeth a strwythur yr adroddiad. Rydym wedi bod yn lliniaru hynny drwy ymgysylltu drwy arweinwyr ein gweithgor a thrwy gynnal gweminarau a chysylltu’n uniongyrchol â’n rhanddeiliaid. Fodd bynnag, ceir risg o hyd na fydd y sawl nad ydym wedi ymgysylltu â nhw yn deall swyddogaeth a strwythur yr adroddiad.

## Goblygiadau ariannol

17. Mae cost dylunio a chyhoeddi’r adroddiad wedi’i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn 2016/17.

## Argymhelliad/Argymhellion

18. Cynigir y dylai’r Bwrdd gymeradwyo’r ffordd ymlaen arfaethedig ar gyfer llunio Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.